

Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ‘Dyfodol Ynni Craffach i Gymru’.

Mae ynni'n rhan ganolog o fywyd yn yr oes fodern ac mae angen system ynni fwy deallus a glân arnom a fydd yn sail i ddyfodol carbon isel llewyrchus i Gymru. Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd blaenorol am gynnal yr ymchwiliad i gyfrannu at waith y Llywodraeth yn y tymor presennol, ac yn diolch iddo am ei waith. Rwyf yn croesawu'r adroddiad, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda phob un o'r cyfranogwyr sydd wedi darparu'r cyfoeth o dystiolaeth y seiliwyd yr adroddiad arni, er mwyn sicrhau bod Cymru ar y trywydd iawn i wireddu'r dyfodol hwn.

Mae'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â'n cyfeiriad strategol o ran polisi ac rwyf yn falch o allu eu derbyn. Mae angen ystyried rhai ymhellach; fodd bynnag, rwyf yn cefnogi bwriad y camau arfaethedig ac yn credu y gallwn gydweithio ag eraill i gyflawni'r canlyniad a fwriedir.

Wrth dderbyn yr argymhellion, rwyf yn falch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig am y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i'w gweithredu, a nodi pa gamau ychwanegol yr ydym wedi'u cynllunio er mwyn adlewyrchu holl fwriad yr argymhellion.

Mae ein polisi ynni strategol, "Ynni Cymru: Newid Carbon Isel", yn nodi ein camau ar gyfer datblygu system ynni sydd wedi'i datgarboneiddio ac sy'n gallu cynnal Cymru lewyrchus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, ac unedig a chysylltiedig.

Mae cyfeiriad hirdymor a strategol y polisi hwn yn ddilys o hyd. Fodd bynnag, mae'r byd wedi newid ers iddo gael ei gyhoeddi, a bydd yr amgylchedd y mae ein polisi yn gweithredu ynddo yn parhau i esblygu. O ganlyniad, mae angen inni ategu ein nodau clir a hirdymor drwy ganolbwyntio mwy ar feysydd a flaenoriaethir. Byddaf yn gwneud datganiad llafar am fy mlaenoriaethau uniongyrchol ym mis Rhagfyr.

Ni all y Llywodraeth greu'r system ynni y bydd ei hangen ar Gymru yn y dyfodol ar ein pennau ein hunain. Rhaid inni weithio gyda dinasyddion, awdurdodau lleol a datblygwyr, a chyda darparwyr rhwydweithiau a rheoleiddwyr, os hoffem sicrhau bod y broses o drawsnewid o'r maint sydd ei angen, ac yn mynd rhagddi mor gyflym ag sydd ei angen, er mwyn cyflawni ein targedau datgarboneiddio uchelgeisiol. Mewn llawer o achosion, mae'r argymhellion yn peri bod angen i eraill weithredu. Fodd bynnag, mae rolau clir i'r Llywodraeth o ran darparu arweinyddiaeth strategol, cynnull y partneriaid angenrheidiol, ac o ran cefnogi newid a'i alluogi. Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddarparu'r strwythurau a'r cyfeiriad sydd eu hangen i alluogi'r broses drawsnewid hon a'i hannog.

Rydym eisoes yn darparu cymorth ar draws pob sector i helpu pobl i fuddsoddi ym maes effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni. Mae darparu cyngor annibynnol i bobl ar y potensial i weithredu, ynghyd â chymorth technegol cadarn i wneud penderfyniadau a'u gweithredu, yn arwain at fuddsoddi, mae'n cyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n arbed carbon, ac mae'n creu cyfleoedd masnachol. Byddwn yn parhau i gynnwys pobl wrth inni fireinio ac ail-ganolbwyntio ein cymorth er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau mewn ffyrdd cost-effeithiol. Mae adnoddau naturiol Cymru yn darparu digonedd o gyfleoedd i gefnogi'r broses o drosglwyddo i economi carbon isel. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni ei huchelgeisiau o ran ynni mewn ffyrdd sy'n fanteisiol i bobl a busnesau, yn awr ac yn y tymor hir.

Rwyf wedi nodi fy ymateb isod i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru bennu gweledigaeth glir ar gyfer ei pholisi ynni yn y dyfodol, gan gynnwys rôl ganolog i ynni lleol.

Ymateb: Derbynn

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, roedd ein polisi ynni strategol, "Ynni Cymru: Newid Carbon Isel", yn glir o ran pennu cyfeiriad ein gwaith. Mae angen system ynni ddatgarbonedig ar Gymru sy'n gallu cynnal Cymru lewyrchus a diogel, iach ac egniol, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, unedig a chysylltiedig.

Ers cyhoeddi'r polisi, buom yn creu'r fframwaith deddfwriaethol a strwythurol sydd ei angen ar hyn o bryd i'w gyflawni. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n Ddeddf arloesol, ac sy'n nodi'r egwyddorion a fydd yn pennu ein dull o wneud penderfyniadau ar draws y sector cyhoeddus, gan estyn ymhell hefyd i sectorau eraill drwy rôl cyrff cyhoeddus. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn braenaru'r tir ar gyfer system gynllunio sy'n ystyried datblygiadau drwy gyfrwng y Ddeddf Llesiant; ac mae Deddf yr Amgylchedd yn pennu system o gyllidebau carbon a thargedau interim sy'n gamau tuag at leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050.

Rydym wedi sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n darparu cyngor cytbwys ar effeithiau a manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol datblygiadau. Mae gwaith parhaus yn Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn helpu i symleiddio prosesau cydsynio er mwyn hwyluso datblygiadau priodol yn well.

Rydym hefyd wedi darparu llawer o gymorth i bob sector ynglŷn ag effeithlonrwydd o ran adnoddau a chynhyrchu, sydd eisoes yn creu manteision i Gymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwybodaeth fwy manwl am y llwybrau posibl y gallai Cymru eu dilyn i gyrraedd y nodau strategol. O ganlyniad, mae angen inni gefnogi ein nodau clir a hirdymor drwy ganolbwyntio mwy ar feysydd blaenoriaeth, er mwyn uchafu'r manteision i Gymru a geir o arloesedd a'r broses o ddatgarboneiddio'r system fyd-eang.

Er mwyn datblygu gwybodaeth fwy manwl, mae angen tystiolaeth fwy manwl arnom. O ganlyniad, byddwn yn datblygu'r dystiolaeth ynghylch dewisiadau ar gyfer cynhyrchu ynni a'i ddefnyddio, gan adeiladu ar sail y gwaith a gyflawnwyd eisoes ar lefel y DU ac yn y sector ynni. Byddwn yn cynnwys y partneriaid sydd eu hangen yn y broses o werthuso'u heffeithiau a dewis, er mwyn cynllunio'r llwybr gorau i Gymru. Byddwn yn rhannu'r dystiolaeth o'r gwaith hwn ar ein llwybr ynni, fel y gall eraill ei defnyddio hefyd i wneud penderfyniadau ar bob lefel ledled Cymru.

Bydd y gwaith hwn wedi'i gysylltu'n agos â'r gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes i lywio'r ddwy gyllideb garbon gyntaf a'r targedau interim, a bydd yn darparu'r data ychwanegol sy'n ymwneud ag ynni yn benodol y bydd eu hangen arnom i wneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol.

Pennodd ein dogfen "Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol", a gyhoeddwyd yn 2015, y rôl glir y gwelwn y bydd ynni lleol yn ei chwarae yn y dyfodol. Mae angen inni ddiffinio ystyr hyn yn fwy clir, a graddau'r rôl honno yn y dyfodol ynni yr ydym yn ei rannu. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith pellach yn y cyswllt hwn, er mwyn pennu llinell sylfaen gynnar ar gyfer graddau'r ynni sydd mewn perchnogaeth leol yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi diweddariad i'r arolwg Ynni Carbon Isel gan ddefnyddio'r data sydd ar gael ynglŷn â pherchnogaeth.

Canfu'r gwaith hwn fod 7,201 o brosiectau gweithredol yn 2014 yn sicr yn rhai a oedd mewn perchnogaeth leol: 14% o'r holl brosiectau oedd y rhain, ac roeddent yn darparu 171 MW o gapasiti gosodedig i Gymru. Oherwydd nad yw pob ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd yn casglu data am berchnogaeth, nid ydym yn gwybod am berchnogaeth 1133 o brosiectau eraill, sy'n creu cyfanswm pellach o 147.6 MW. Mae'n debygol iawn fod cyfran o'r prosiectau hyn hefyd mewn perchnogaeth leol. Byddwn yn ceisio gwella'r data am berchnogaeth yn ein gwaith yn y dyfodol, gan gadw llygad ar yr hyn sy'n fforddiadwy.

Fodd bynnag, dim ond 6% o gyfanswm y capasiti i gynhyrchu carbon isel yng Nghymru yr oedd prosiectau mewn perchnogaeth leol yn ei ddarparu. Bydd arnom angen dulliau cynhyrchu ar bob graddfa er mwyn sicrhau ein dyfodol carbon isel. Bydd ein gwaith ar lwybrau ynni yn rhoi mwy o eglurder inni ynghylch lefel y galw ledled Cymru, a pha raddfa sydd orau ar gyfer ateb y galw hwnnw er mwyn darparu gwerth yn lleol.

Rydym eisoes yn gweithio drwy ein gwasanaeth Ynni Lleol i hwyluso cydweithredu rhwng datblygwyr a chymunedau, a hynny drwy fentrau cymdeithasol a Llywodraeth Leol. I sicrhau bod datblygiadau mwy yn rhai angenrheidiol a'u bod mewn lleoliadau addas, rhaid iddynt fod wedi'u

gwreiddio mewn cynlluniau datblygu lleol, fel rhan o sylfaen y rhanbarth. Byddwn yn parhau i weithio gyda phawb sy'n ymwneud â'r broses er mwyn deall yn well pa gymorth sydd ei angen i gyflawni hyn, ac i uchafu'r manteision a geir o ddulliau cynhyrchu ynni ar bob graddfa i Gymru.

Goblygiadau ariannol – Bydd y costau sy'n gysylltiedig â datblygu ein cronfa dystiolaeth a safbwyntiau polisi yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru osod targedau blynyddol i leihau'r galw am ynni a helpu pobl i'w ddefnyddio'n fwy effeithlon.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Mae lleihau'r ynni sydd ei angen arnom yn gwneud synnwyr ar bob lefel: mae'n lleihau'r ynni y mae angen inni ei gynhyrchu, mae'n lleihau costau ynni i'r sawl sy'n talu'r biliau, ac mae'n lleihau allyriadau. Rydym eisoes wedi gwneud llawer i helpu pobl a busnesau i leihau ynni. Fodd bynnag, mae angen sbardun mwy er mwyn ysgogi camau gweithredu ym mhob sector ac i ysgogi datblygiad marchnad i'r rhai sy'n gallu talu.

Credwn mai gofyniad Deddf yr Amgylchedd i leihau allyriadau o leiaf 80% fydd y dull allweddol o sbarduno'r newid hwn. Wrth ddatblygu'r rheoliadau ategol, fel y targedau lleihau allyriadau interim a'r cyllidebau carbon, bydd angen inni asesu'n llwyr y goblygiadau sy'n gysylltiedig â gwahanol lwybrau, gan gael cyngor gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd cyn inni allu canfod pa ffurf ddylai fod ar y llwybr ar gyfer datgarboneiddio. Bydd y cymysgedd ynni yn nodwedd allweddol ar y gwaith hwn. Rydym yn cytuno y bydd angen deall y galwadau am ynni ar draws gwahanol sectorau yn well, gan gynnwys sut y gall hynny newid yn y dyfodol.

Mae mwyafrif y camau sydd eu hangen i wella'r stoc o adeiladau yn benderfyniadau i'r rhai sy'n berchen ar yr adeiladau preswyl a masnachol ledled Cymru, ac sy'n eu meddiannu. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn gyfle busnes i gyflenwyr a gosodwyr cyfrifol. Ein rôl ni yw hyrwyddo'r angen i weithredu, helpu pobl i ddeall yr hyn y gallent ei wneud, a darparu gwybodaeth a chymorth i'w galluogi i fod yn hyderus wrth weithredu. Mae dyletswydd arnom hefyd i sicrhau bod cyngor yn gadarn, oherwydd gall effaith gosod y mesurau anghywir, neu waith gosod a gwasanaeth gwael, fod yn gostus.

Mae'r maes hwn yn un cymhleth, a chomisiynodd Llywodraeth y DU adolygiad Bonfield i ganfod pa bethau eraill sydd eu hangen yn y maes. Byddwn yn ystyried ei ganfyddiadau yng nghyd-destun y cymorth yr ydym yn ei ddarparu yn ogystal â'r camau y mae angen i Lywodraeth y DU eu cymryd i sbarduno mwy o effeithlonrwydd.

Mae gwasanaeth Cymru Effeithlon, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014, yn cynnwys nifer o raglenni i helpu unigolion, cymunedau a busnesau i ddod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Cymru Effeithlon yw pwynt mynediad unigol Llywodraeth Cymru, ac mae'n darparu gwybodaeth am amryw o bynciau ym maes effeithlonrwydd adnoddau, a hynny'n bennaf drwy gyngor ar sut i leihau ynni, dŵr, yr adnoddau a ddefnyddir, a gwastraff, sy'n rhoi gwybod i gymunedau a busnesau am y manteision sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd o ran adnoddau.

Mae Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynlluniau Arbed a Nyth, yn darparu cyllid ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd sydd ag incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru. Mae'n ategu ymrwymadau Llywodraeth Cymru i:

- helpu i drechu tlodi tanwydd
- lleihau allyriadau carbon, a
- chreu swyddi a thwf yn y sector effeithlonrwydd ynni yng Nghymru.

Mae'r ddau gynllun yn ystyried dull sy'n cynnwys y tŷ cyfan wrth ymdrin â gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartrefi. Mae hyn yn helpu o ran mynd i'r afael â chartrefi y mae'n anos eu trin, lle y mae effaith tlodi tanwydd yn dueddol o fod fwyaf difrifol. Ers 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £217 miliwn ac mae wedi gwella dros 39,000 o gartrefi, gan leihau biliau ynni a helpu aelwydydd i wresogi eu cartrefi mewn ffordd fwy fforddiadwy.

Mae ein cymorth i'r sector cyhoeddus wedi cynnwys mwy o gymorth i gyflymu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy a dileu eu risgiau. Mae Partneriaethau Lleol wedi cael cyllid grant hyd at fis Ebrill 2018 i gynorthwyo gyda'r agweddau ar brosiectau sy'n ymwneud â masnach a chaffael. Mae'r gwasanaeth yn adeiladu ar sail y cymorth technegol presennol a ddarperir drwy Cymru Effeithlon gan yr Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'r prosiectau arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol yn unig yn cynnwys bron 150 o brosiectau sy'n cynnwys gwariant cyfalaf amcangyfrifedig uwchlaw £400 miliwn.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn weithgar yn y cyswllt hwn, mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cyflwyno mesuryddion deallus, datblygu rhaglen fawr i ategu rhwydweithiau gwres, a chymorth i arloesedd drwy gystadlaethau a chatapyltiau. Rydym yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith hwn, gan sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried yn ystod y broses ddatblygu, a bod Cymru'n cael budd o'r gwaith. Er enghraifft, o ganlyniad i'n gwaith ar y cyd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn un o blith dim ond tri o awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn rhaglen *Smart Systems and Heat* y DU. Mae'n cael cymorth gan y Catapwlt Systemau Ynni yn ogystal ag Uned Cyflawni Rhwydwaith Gwres y DU wrth iddo ddatblygu dau brosiect rhwydwaith gwres, y mae un ohonynt yn ymchwilio i ddefnyddio gwres o hen gloddfeydd.

Goblygiadau ariannol – Dim: mae'r camau gweithredu a ddisgrifiwyd wedi'u cynllunio eisoes fel rhan o raglenni presennol a'u datblygiad.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru geisio diwallu ei holl anghenion ynni drwy ffynonellau adnewyddadwy ac, yng nghyd-destun yr angen i dorri o leiaf 80% ar ei hallyriadau carbon erbyn 2050, gosod dyddiad targed ar gyfer cyflawni hyn.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn o ran egwyddor, gan fod yr angen i ddatgarboneiddio ein system ynni yn glir ac yn ddiamwys. Fodd bynnag, ein safbwynt o ran polisi yw ceisio trosglwyddo i system ynni carbon isel gan ddefnyddio ystod amrywiol o dechnolegau cynhyrchu ynni carbon isel fforddiadwy, gan gynnwys ynni niwclear. Mae gwaith modelu gan Lywodraeth y DU a chan ystod o gyrrff gwybodus yn adlewyrchu'r heriau sy'n rhan annatod o ddiwallu ein hanghenion o ran ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn unig. Rydym wrthi'n ymgynghori ar y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol arfaethedig i Gymru, a byddai hwn yn helpu i lywio a blaenoriaethu penderfyniadau ar fuddsoddiadau yng nghyswllt anghenion seilwaith yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Y cyfng-gyngor o ran ynni, y mae tair rhan iddi, yw cyflawni sicrwydd o ran ynni drwy ynni datgarbonedig, gan gadw costau'n fforddiadwy. Mae gennym eisoes lawer iawn o ynni a gynhyrchir drwy ddulliau adnewyddadwy yng Nghymru, fel sy'n wir ledled y DU. Yn wir, nid oedd disgwyl cyrraedd y lefel bresennol o ran cynhyrchu ynni solar tan yn hwyr yn y degawd nesaf. Er bod technolegau ynni adnewyddadwy'n datblygu'n gyflym, mae'r storffeydd a'r gridiau deallus sydd eu hangen i gysylltu'r cyflenwad hwn â'r galw yn dal i gael eu datblygu. Fel yn achos pob maes sy'n datblygu, nid yw'n glir pryd y bydd modd cyflawni hyn, ac nid yw holl gostau'r gwaith yn glir.

Fel rhan o'n gwaith ar lwybrau ynni, byddwn yn datblygu tystiolaeth fwy clir am y galw am ynni yn y dyfodol, a hynny ar ffurf trydan a gwres. Byddwn hefyd yn modelu'r costau a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion ynni Cymru fwy llewyrchus ac effeithlon o ffynonellau adnewyddadwy yn unig. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr effaith y mae lefelau cynhyrchu angenrheidiol yn ei chael ar adnoddau naturiol a thirwedd Cymru, a'i derbynioldeb i bobl yng Nghymru. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu uchelgeisiau mwy clir ar gyfer cynhyrchu ynni mewn partneriaeth, ar lefel genedlaethol a lleol.

Goblygiadau ariannol – Nid yw'r gost lawn sy'n gysylltiedig â datblygu'r dystiolaeth hon yn glir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y gost gychwynol i gwmpasu'r ymarfer yn cael ei thalu o gyllidebau staff a rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru sicrhau bod targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau galw ac allyriadau carbon yn dod yn ddyletswyddau lleol. Dylid cyflawni'r rhain drwy'r fframwaith sydd wedi'i bennu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Rydym yn derbyn yr egwyddor a ddisgrifir yn yr adroddiad bod “gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae o ran lleihau carbon a chefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol lleol. Dylai lleihau carbon fod yn ystyriaeth allweddol i'r byrddau wrth iddynt bennu eu blaenoriaethau”.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I wneud hyn, rhaid iddynt bennu amcanion llesiant a'u cyhoeddi. Bydd yr amcanion hyn yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth i Gymru a fynegir yn y nodau llesiant. Mae gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o bob nod a chyfeirir ato'n benodol gan nodi ei fod yn sylfaen i'n llewyrch yn y dyfodol ac i gydnerthedd ein cymdeithas.

Byddwn yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gyrff cyhoeddus, ac i benderfynu ar sut y gellir cyflawni'r broses ddatgarboneiddio ar lefel leol drwy'r asedau a'r gwasanaethau allweddol y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, yn unol â'r egwyddor o gynnwys sy'n rhan o'r gwaith ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ni allwn dderbyn yn unochrog fod angen gosod dyletswydd ar hyn o bryd.

Goblygiadau ariannol – Bydd y gost sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phartneriaid i benderfynu ar yr atebolrwydd am gyllidebau carbon yn cael ei thalu o'r gyllideb staff a rhaglenni a ddyrannwyd.

Argymhelliad 5

Rhaid i Gymru ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu ar frys i sicrhau bod tai newydd yn cael eu hadeiladu i safonau ynni 'agos at sero'.

Ymateb: Derbyn

Mae lleihau effaith y cartrefi newydd a adeiladir yn yr oes bresennol hyd at 2050 o safbwynt allyriadau'n parhau'n flaenoriaeth dros y tymor canolig, o gofio nad yw hyd at 30% o'r cartrefi a fydd yn bodoli bryd hynny wedi'u hadeiladu eto. O'r herwydd, rydym yn ymrwymedig i adolygiadau rheolaidd o'n Rheoliadau Adeiladu er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd o ran lleihau effaith datblygiadau newydd ar ein hinsawdd.

Wrth geisio parhau i ddatgarboneiddio'r amgylchedd adeiledig, mae angen inni gydnabod pwysigrwydd economaidd y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru. Rhaid felly codi safonau mewn ffordd gost-effeithiol ac felly byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn canfod cydbwysedd rhwng yr angen i leihau'r defnydd o ynni mewn tai newydd a'r angen i ateb galw newydd am dai.

Fy mwriad, unwaith i'r adolygiad cyfredol ar reoliadau adeiladu cynaliadwy ei gwblhau, fydd troi ein golygon unwaith eto at Ran L (cadwraeth tanwydd a phŵer) gan ddatblygu at y newidiadau a wnaed yn 2014. Yr wyf yn disgwyl i'r gwaith hwn gychwyn tua chanol 2017.

Nod ein hadolygiad nesaf yw asesu gweithrediad y targedau o fewn Cyfarwyddeb 2010 yr UE ar Berfformiad Ynni mewn Adeiladau (a ail-luniwyd), yn benodol y targed o sicrhau fod pob adeilad sector gyhoeddus yn cyrraedd lefel 'Bron Sero Ynni' erbyn Rhagfyr 2018 a pob adeilad newydd yn cyrraedd yr un lefel erbyn Rhagfyr 2020. Wrth bennu safonau i sicrhau gweithrediad yn erbyn y targed, bydd gofyn inni bennu safonau ar lefel sy'n sicrhau'r gost orau, neu lefel well.

Cafodd adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar nodwedd safonau aelod-wladwriaethau o sicrhau'r gost orau (ar sail safonau 2010) ei gyhoeddi yn y Senedd ar 10 Hydref 2016. Nododd, ar adeg yr asesiad (2012), fod safonau'r DU, o'u hystyried yn eu cyfanrwydd, ar lefelau a oedd yn sicrhau'r gost orau, neu lefel well.

Fel cam cyntaf i hysbysu amcanion yr adolygiad nesaf o'r rheoleiddiadau adeiladu, mae dadansoddiad o'n safonau effeithlonrwydd ynni presennol (Rhan L 2014) wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer yr ail adroddiad aelodau gwladwriaethol ar sicrhau'r gost orau, hyn fel y cam cyntaf i ddatblygu ein hamcanion ar gyfer yr adolygiad nesaf o'n Rheoliadau Adeiladu. Bydd hwn yn llywio'r gwaith o benderfynu ar sut y bydd ein safonau ni a safonau gweinyddiaethau eraill yn gorfod newid i gyd-fynd â gofyniad y Cyfarwyddeb am adeiladau newydd 'bron dim ynni'. Mae trafodaethau am y gwaith parhaus o weithredu cyfarwyddebau'r UE yn sgil y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos y byddwn yn parhau'n ddarostyngedig i'r Gyfarwyddeb pan fydd y gofyniad i gyflawni adeiladau 'bron dim ynni' yn y sector cyhoeddus erbyn diwedd 2018 yn dod i rym.

Er ei bod yn bwysig codi'r safonau gofynnol o ran perfformiad yn raddol, mae angen cyfeirio ymdrechion at sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei adeiladu'n cyfateb i'r hyn a ddylunnir. Mae gwaith gan Zero Carbon Hub wedi canfod bwch perfformiad mewn cartrefi newydd.

<http://www.zerocarbonhub.org/current-projects/performance-gap>.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant adeiladu tai ynglŷn ag ymdrechion i leihau bylchau o'r fath.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn pennu targed cyfreithiol o leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050 ac mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cyfres o dargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon. Rhaid cyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol sy'n nodi'r cynigion a'r polisiâu ar gyfer cyflawni'r gyllideb garbon ar gyfer pob cyfnod. Byddwn yn cynnal adolygiadau cyfnodol o reoliadau adeiladau i sicrhau bod safonau ar gyfer cartrefi newydd yn chwarae rhan briodol yn y gwaith o gyflawni'r cyllidebau hynny.

Goblygiadau ariannol – Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu pennu fel rhan o'r ystyriaethau ar gyfer adolygiadau o Ran L (Arbed Tanwydd a Phŵer) yn y dyfodol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru, ar ôl cwblhau'r treial llwyddiannus o gartrefi SOLCER ar raddfa, ddechrau ymestyn ei gofynion effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi newydd y tu hwnt i garbon 'agos at sero' i lefel o effeithlonrwydd lle y cynhyrchir ynni dros ben.

Ymateb: Derbyn

Bydd y profiad a geir ym mhrosiect arddangos Solcer a chynigion pellach ar gyfer datblygiadau tai ar sail egwyddorion Solcer sy'n cael eu trafod â nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac Awdurdodau Lleol yn llywio safonau yn y dyfodol. Rhaid i unrhyw broses o symud at y math o dechnolegau y mae Solcer wedi'i seilio arnynt gynnwys dealltwriaeth gadarn o oblygiadau hirdymor y technolegau hynny o ran eu gweithredu, eu cynnal, a phrynu offer newydd o safbwynt yr aelwyd, ac esblygiad y grid a'i berthynas â chyflenwad a symudwyd o'r canol.

Fel y trafodwyd mewn cysylltiad ag Argymhelliad 5, wrth geisio gwella perfformiad cartrefi newydd, mae angen inni gydnabod pwysigrwydd economaidd y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru. Rhaid codi safonau mewn ffordd gosteffeithiol, ac felly byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn canfod cydbwysedd rhwng yr angen i leihau'r defnydd o ynni mewn tai newydd a'r angen i ateb y galw am dai newydd.

Goblygiadau ariannol – Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu pennu fel rhan o'r ystyriaethau ar gyfer adolygiadau o Ran L (Arbed Tanwydd a Phŵer) yn y dyfodol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru wella ac ymestyn cynlluniau ôl-ffitio presennol Llywodraeth Cymru, sef Nyth ac Arbed, gan fabwysiadu model 'parthau cynnes' i sicrhau darpariaeth fwy cydgyssylltiedig mewn ardaloedd lle y mae achosion yn cyd-daro o dai wedi'u hinswleiddio'n wael, tlodi tanwydd ac iechyd gwael.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Yn 2016/17, bydd Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi ledled Cymru drwy gynllun Nyth, sy'n cael ei arwain gan y galw, a grantiau i awdurdodau lleol a Pharthau Cynnes ar gyfer cynlluniau sy'n seiliedig ar ardaloedd.

Mae Arbed, sy'n rhan o Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, wastad wedi canolbwyntio ar ddarparu cynlluniau effeithlonrwydd ynni sy'n seiliedig ar ardaloedd a chynyddu i'r eithaf nifer y cartrefi sy'n cael eu gwella drwy ddull cydgyssylltiedig. Mae'r rhaglen yn ysgogi cyllid o nifer o ffynonellau, gan gynnwys cyllid yr UE, rhwymedigaethau cyflenwyr ynni, a chyllid gan Awdurdodau Lleol a darparwyr tai cymdeithasol. Mae Arbed eisoes yn gweithio gyda model sy'n debyg i'r 'Parthau Cynnes'.

Mae proses ymgynghori'n mynd rhagddi i ganfod safbwyntiau ynglŷn â'r hyn a fydd yn nodweddu cynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd sy'n cael ei arwain gan y galw ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd hwn yn olynu cynllun Nyth presennol Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ar 1 Medi 2017.

Mae swyddogion yn gweithio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ddatblygu cynllun sy'n seiliedig ar ardaloedd ac a ariennir o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), a fydd yn gweithredu dros y ddwy flynedd nesaf, o bosibl, gan gynnwys dewis i'w ymestyn am flwyddyn arall.

Tra bo cynlluniau Nyth ac Arbed yn parhau, rhaid i unrhyw benderfyniad i wella ac ymestyn y cynlluniau gael ei ystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau ariannu eraill.

Goblygiadau ariannol – Byddai cynyddu maint rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn peri goblygiadau ariannol sylweddol i gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Nid oes dim arwydd o'r raddfa a gynigiodd y Pwyllgor a byddai angen i unrhyw gynnydd i fuddsoddiadau gael ei ystyried yn erbyn blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu. Yn 2016/17, £26.5m yw gwerth cyllideb gyfalaf y rhaglen. Disgwylir iddi leihau yn 2017/18, ac mae cyllideb arfaethedig o £19m.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru ymchwilio i gysylltu cost treth tir y doll stamp â pherfformiad ynni tai i ddechrau cynyddu gwerth cartrefi effeithlon o ran ynni.

Ymateb: Derbyn

Ar 12 Medi, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), a fydd yn creu treth newydd ar drafodiadau tir yng Nghymru, a fydd yn disodli treth dir y dreth stamp o fis Ebrill 2018. Yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid ynghylch cynnwys y Bil hwn a natur y dreth trafodiadau tir, mae'r Bil yn cadw elfennau allweddol o dreth dir y dreth stamp. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd o ran y trefniadau presennol, a fydd yn creu proses bontio ddiraferth i'r farchnad eiddo.

Yn sgil datganoli pwerau trethu, mae gennym gyfle i ddylunio trethi Cymru er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system drethi ddatganoledig a sicrhau y canolbwyntir ar anghenion a blaenoriaethau unigryw Cymru. Mae'r Bil wedi'i lunio i gynnwys hyblygrwydd i ddwyn ymlaen newidiadau i'r dreth dros amser. O ran egwyddor, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad i ymchwilio i'r mater hwn, ac mae wedi ymrwymo i ystyried sut y gallwn ddylunio'r system drethi ddatganoledig yn well er mwyn diwallu anghenion Cymru.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru sefydlu cwmni gwasanaeth ynni 'ymbarél' dielw. O dan yr ymbarél hon, gall awdurdodau lleol, dinas-ranbarthau neu gymunedau gynnig cyflenwad ynni yn lleol.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Rydym yn cytuno bod potensial ar gyfer cwmnïau ynni dielw yng Nghymru. Rydym hefyd yn gwybod am nifer o sefydliadau yng Nghymru sydd eisoes yn ystyried gweithredu neu sydd wrthi'n gweithredu, a hynny yn erbyn cefndir lle y mae nifer y cwmnïau ynni'n cynyddu'n gyflym. Erbyn hyn, mae mwy na pum deg o ddarparwyr sydd â thrwydded gyflenwi, y mae rhai ohonynt yn canolbwyntio ar ganlyniadau cymdeithasol, gan ddarparu mwy o ddewis. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i gael syniad clir o ran pa mor dda y mae dulliau dielw gan awdurdodau lleol yn gweithio a pha fanteision sy'n cael eu cyflawni dros y tymor hwy. Rydym wedi gwneud peth gwaith i ymchwilio i'r effaith, y manteision tebygol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu un cwmni ynni dielw.

Mae'r gwaith cynnar hwn yn dangos bod nifer o fodolau gwahanol, y mae pob un ohonynt yn cyflawni manteision gwahanol. Er enghraifft, roedd Robin Hood Energy yn Nottingham yn canolbwyntio ar leihau pris trydan yn yr ardal, tra bo model Bryste'n canolbwyntio ar greu ffrwd referniw i'r awdurdod, gan gael rhywfaint o effaith ar dlodi tanwydd i grwpiau penodol.

Nid ydym wedi canfod model sy'n llwyddo i gynorthwyo'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd, er y gallai hyn fod yn ganlyniad i brosiect Energy Local (Ynni Lleol) sydd ar waith ym Methesda, yr ydym yn rhoi cymorth iddo. Fodd bynnag, mae'n heriol iawn cael pris uwch am ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar raddfa lai ar yr un pryd â lleihau'r gost i'r rhai sy'n talu'r biliau. Mae tystiolaeth fod rhai cwmnïau ynni newydd yn cael anawsterau, yn arbennig gan y gall fod angen llawer iawn o gwsmeriaid arnynt er mwyn cefnogi'r model busnes.

Nid yw'r ddadl gadarn o blaid cael un cwmni ynni dielw yn glir o'n gwaith hyd yma. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ystyried camau gweithredu yn y maes hwn, ond gall y rhain fod ar gyfer gweithgaredd penodol iawn, er enghraifft gwaith sy'n canolbwyntio ar rwydwaith gwres ardal.

Rydym eisoes yn gweithio i hyrwyddo gwybodaeth sy'n datblygu ynglŷn â strwythurau a modelau busnes gwahanol. Er enghraifft, mae'r Catapult Systemau Ynni wedi datblygu modelau a dulliau deallus i helpu i hwyluso'r gwaith o ddatblygu modelau busnes newydd fel rhan o'i raglen *Smart Systems and Heat* y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud â hi. Yn yr un modd, mae'r Uned Cyflawni Rhwydwaith Gwres hefyd wedi datblygu rhai dulliau o gynorthwyo awdurdodau lleol ac eraill gyda datblygu rhwydweithiau gwres, a'u hochr gyflenwi. Rydym wedi cynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o'r rhain yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a mentrau cymdeithasol yng Nghymru i ddeall pa weithgareddau sy'n mynd rhagddynt eisoes, ynghyd ag anghenion gwahanol weithredwyr a rhanbarthau a'r hyn sy'n eu hysgogi. Er y gallai cael un endid greu manteision, mae ein gwaith presennol yn awgrymu bod lle ar gyfer ystod o endidau sy'n gweithredu at ddibenion gwahanol. Bydd ein gwaith ymchwil yn darparu tystiolaeth i helpu i ddiffinio rôl Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo camau gweithredu yn y maes hwn.

Goblygiadau ariannol – Mae'r gwaith cwmpasu cychwynnol yn dangos mai oddeutu £2 filiwn o leiaf yw'r gost debygol sy'n gysylltiedig â sefydlu cwmni cyflenwi busnesau bach/domestig, ac y bydd ymrwymiad cyfalaf sylweddol pellach ar gyfer prynu ynni. Yn achos Bryste, cawn ar ddeall ei bod wedi cymryd 10 mlynedd i'r endid gael ei wireddu gyda'r gwaith datblygu parhaus cysylltiedig sydd ei angen. Gellir talu cost y camau gweithredu a gynigir yn yr ymateb hwn o gyllidebau staff a rhaglenni presennol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru annog Llywodraeth y DU i alluogi Ofgem i ganiatáu blaenoriaethu cyflenwad lleol i ddefnyddwyr lleol yng Nghymru.

Ymateb: Derbynn

Yn ein dogfen "*Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol*" (2015), gwnaethom nodi'r dyhead i weld cymunedau a busnesau'n defnyddio trydan a gwres a gynhyrchir yn lleol, o amryw o osodiadau adnewyddadwy, i gyflenwi'r galw lleol ac i leihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir yn ganolog i'r eithaf. Credwn fod yr argymhelliad hwn yn cyd-fynd â'r dyhead, ac rydym yn falch o'i dderbyn ar y sail honno.

Buom yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Gweithredwyr Rhwydweithiau Ardaloedd ac Ofgem i annog y broses o ddatblygu rhwydweithiau i greu manteision i Gymru. O ran dewisiadau gwifrau preifat yr ymchwiliwyd iddynt o dan wasanaeth Ynni Lleol, gwnaethom ganfod bod y gost o adeiladu'r gwifrau preifat bron bob amser yn rhy ddrud i'w gwneud yn hyfyw'n fasnachol, yn arbennig ar raddfa fach. Credwn fod prosiect Energy Local (Ynni Lleol), sy'n defnyddio'r grid dosbarthu lleol ac sy'n cydgasglu cynhyrchwyr a defnyddwyr, yn enghraifft o'r math o brosiect sy'n gallu hwyluso cyflenwadau lleol, a chaniatáu i Lywodraeth y DU ac Ofgem ddeall sut i ddylunio system reoleiddio sy'n cynorthwyo defnydd mwy lleol.

Drwy ein rhaglen Byw yn Glyfar, rydym yn gweithio gydag Ofgem, Awdurdodau Lleol, y Gweithredwyr Rhwydweithiau Ardaloedd a chyflenwyr i ymchwilio i'r potensial ar gyfer costau cymesur am drefniadau gwifrau preifat rhithwir. Bydd y dewis newydd hwn, sef "gosod llewys", yn creu mwy o botensial ar gyfer defnydd lleol os gallwn sicrhau cytundeb gan Ofgem. Rydym wedi gwneud cynnydd da hyd yn hyn, ac mae angen inni barhau i bwysu i sicrhau bod yr agenda hon yn mynd yn ei blaen.

Rydym eisoes wedi ymchwilio i rai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflenwi ynni yn yr ymateb i argymhelliad 9. Rydym yn cytuno bod y gofynion sy'n ymwneud â'r drwydded gyflenwi yn gymhleth ac yn heriol. Fodd bynnag, mae'r gofynion hyn hefyd yn diogelu'r rhai sy'n talu'r biliau. Buom yn gweithio gydag Ofgem wrth iddo ddatblygu dull sy'n seiliedig ar egwyddorion o reoleiddio, a allai arwain at rywfaint o symleiddio, os yw'n cael ei gyflawni'n effeithiol. Rydym wedi rhoi gwybod i Ofgem am brofiadau yng Nghymru o ran datblygu'r dull seiliedig ar egwyddorion sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys tystiolaeth o safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddiwr.

Byddwn yn parhau i weithio ar yr agenda hon gydag Ofgem, y Gweithredwyr Rhwydweithiau Ardaloedd, a phan fo angen gyda Llywodraeth y DU, er mwyn cynyddu'r graddau y caiff ynni ei gynhyrchu a'i ddefnyddio'n lleol yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru gael mwy o lais ynghylch sut y mae'r grid, Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu a chwmnïau ynni yn gweithredu.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cytuno bod rhaid i Gymru fod â llais cryf yn y ffordd y mae marchnadoedd a rhwydweithiau trydan a nwy y DU yn cael eu gweithredu.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr angen i Weithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu symud at rôl Gweithredwr System Ddosbarthu, gan fynd ati mewn ffordd fwy gweithredol i reoli'r dasg gymhleth o ganfod cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw drwy gyfrwng grid deallus. Yn ddiweddar, cawsom yr ymarfer ymgynghori cyntaf gan Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu o Gymru wrth iddo baratoi ar gyfer symud tuag at y swyddogaeth hon. Byddwn yn mynd ati i gyfrannu at yr ymarfer hwn, gan gynrychioli anghenion Cymru tra byddwn yn cydnabod tiriogaeth ddaearyddol ehangach y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu.

Mae Llywodraeth y DU ac Ofgem wedi datblygu ymarfer ymgynghori ar y newidiadau sydd eu hangen ar y system fel y gellir cael system ynni fwy deallus, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n strategol i'r broses o ddatblygu'r ymgynghoriad. Rydym wedi cytuno ag Ofgem i gynnal cyfres o ddiwyddiadau yng Nghymru i alluogi rhanddeiliaid i gyfrannu eu safbwyntiau, a sicrhau bod ein safbwynt yn cael ei adlewyrchu'n llwyr.

Buom yn gweithio gyda datblygwyr a Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i ddatrys materion sy'n ymwneud â mynediad at y grid lleol ers cryn amser. Er enghraifft, cynigiwyd cysylltiad â'r grid i un datblygwr graddfa fach o Gymru ar gyfer dull cynhyrchu ynni dŵr micro islaw 20 cilowat am gost uwchlaw pum miliwn o bunnoedd (y gost o uwchraddio'r llinell gyfan, gan fod yr holl gapasiti wedi'i ymrwymo). Buom yn arwain trafodaethau â'r datblygwr a'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu, a gwnaethom ddarparu cymorth technegol a arweiniodd at gysylltiad fforddiadwy.

Gan weithio gydag Ofgem a'r Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu, rydym wedi gweld y gwelliannau y mae'r Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu wedi'u gwneud i'r broses o reoli ciwiau'n weithredol, ac o ran darparu gwybodaeth fwy manwl i ddatblygwyr. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i'w gwneud yn ofynnol i Ofgem gymhell Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i weithredu'n rhagweithiol i ddod ag ymgeiswyr cysylltiadau at ei gilydd i gyflawni camau uwchraddio a ariennir ar y cyd.

Buom yn gweithio gyda Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i'w hannog ac i'w cynorthwyo gyda threialu ffyrdd newydd o uchafu eu rhwydweithiau presennol. Yn hytrach na gwifrau preifat newydd sy'n sbarduno newidiadau i gostau, credwn ei bod yn well gwneud rhwydweithiau presennol yn fwy clyfar fel y gallant ymdopi â galw a chynnyrch a ddosberthir. Mae amryw o arbrofion yn mynd rhagddynt drwy gyllid gan Ofgem, ac mae'r ddau ohonom yn cefnogi arbrofion yng Nghymru ac yn annog Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i ddefnyddio methodolegau llwyddiannus yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i annog Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i fabwysiadu dulliau mwy clyfar o ymdrin â'u rhwydwaith ac yn cynorthwyo'r broses o symud at rôl Gweithredwr System Ddosbarthu drwy barhau i ymchwilio i'r maes rheoleiddio newydd hwn gydag Ofgem.

Buom hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau eglurder ynghylch datganoli'r broses gydsynio mewn cysylltiad â'r grid drwy gyfrwng Bil Cymru. Byddwn yn blaenoriaethu'r broses o greu cyfundrefn gydsynio i ategu'r pwerau newydd yr ydym yn eu hennill drwy'r Bil pan fydd wedi'i ddeddfu.

Mae Bil Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofgem ddarparu ei adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a byddem yn annog y Pwyllgor i fanteisio ar y cyfle hwn i graffu ar y ffordd y mae ei waith yn ategu anghenion Cymru. Byddwn ni, yn ein tro, yn ymgymryd â rôl ragweithiol fwy amlwg gydag Ofgem, gan ddatblygu cyfeiriad mwy clir ynglŷn â'n blaenoriaethau i Gymru.

O ran y broses o gyflwyno mesuryddion deallus, rhaglen nad yw wedi'i datganoli yw hon sy'n cwmpasu aelwydydd a busnesau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Ynni Clyfar GB wedi'i sefydlu i wella dealltwriaeth cwsmeriaid o fesuryddion deallus a'u manteision. Mae swyddogion yn gweithio gydag Ynni Clyfar GB, Ofgem a Llywodraeth y DU i sicrhau bod anghenion deiliaid tai Cymru yn cael eu hystyried yn y broses o gyflwyno'r mesuryddion deallus.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru ddarparu, denu a hwyluso cymorth ariannol, technegol ac ymchwil ar gyfer storio ynni, fel rhan o'r flaenoriaeth ehangach a fydd yn cael ei rhoi i gyflenwi ynni lleol.

Ymateb: Derbynn

Rydym yn cydnabod yr effaith y gallai storio ynni ei chael o ran mynd i'r afael ag ysbeidioldeb ynni a gynhyrchir drwy ddulliau adnewyddadwy ac o ran helpu i reoli rhwydweithiau lleol. Fodd bynnag, nid yw rôl storio yng nghymysgedd seilwaith rhwydweithiau yn glir. Mae'r costau'n dal yn uchel wrth i dechnolegau barhau i ddatblygu ac nid ydynt yn cael eu defnyddio ar raddfa fawr hyd yma. Nid oes dim eglurder o ran rheoliadau, er bod Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd rhan mewn gweithdy gan Lywodraeth y DU ac Ofgem ynghylch diffinio storfeydd trydan, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant storio. Pwysleisiodd y dystiolaeth ddiweddar a roddwyd i Bwyllgor y DU ar Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd ynglŷn â storio trydan a'r rhwystrau i'r broses o'i ddatblygu rai o'r materion a'r cymorth y mae'n debyg y byddant yn ofynnol.

Mae'n debyg y bydd storio'n rhan o'r datrysiad yn y system ynni ehangach. Rydym eisoes yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, busnesau a phrifysgolion i helpu i dechnoleg gamu ymlaen o'r cysyniad i'r gallu i'w defnyddio. Mae ein gwaith parhaus ym maes arloesedd yn helpu sefydliadau Cymru i gael gafael ar gyllid arloesedd y DU.

Rydym yn annog dulliau arloesol o ddefnyddio storfeydd mewn meysydd fel troi trydan yn hydrogen ar gyfer trafndiaeth a gwresogi, ymateb ar ochr y galw er mwyn amseru a rheoli'r defnydd o ynni, defnyddio cerbydau trydan o bosibl yn fatriâu deallus, a chyfleoedd gwahanol o ran storio batrïâu. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ymestyn ffiniau technoleg ac arferion presennol. Bydd yn parhau i ddod â gwybodaeth i Gymru am ddatblygiadau ar lefel y DU, a fydd yn hwyluso'r broses o ddefnyddio storfeydd yn ehangach mewn datrysiadau integredig ar gyfer dyfodol ynni mwy deallus.

Goblygiadau ariannol – Bydd y broses bresennol ac yn y dyfodol o ddatblygu mentrau yn defnyddio cymysgedd o ffynonellau cyllid o gyllidebau rhaglenni presennol a chronfeydd yr UE. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol inni gael mynediad at gronfeydd Llywodraeth y DU fel y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (OLEV) ac Innovate UK, cyllid arloesedd Ofgem, a buddsoddiadau preifat.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru ddiwygio polisi cynllunio fel ei bod yn blaenoriaethu prosiectau ynni adnewyddadwy lleol a chymunedol ac yn ei gwneud yn ofynnol i effaith carbon datblygiadau newydd fod yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Mae ein polisiâu cynllunio cenedlaethol, a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru, yn gefnogol ac yn gadarnhaol ynghylch prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar bob lefel. Dau o'r amcanion ar gyfer y system gynllunio, fel y'u nodir yn Polisi Cynllunio Cymru, yw y dylai'r system gynllunio “[c]hwarae rôl briodol o ran hwyluso safonau adeiladau cynaliadwy (gan gynnwys safonau digarbon) sy'n ceisio lleihau effeithiau adeiladu ar gynaliadwyedd a'r amgylchedd” a “[g]wneud y defnydd mwyaf posibl o adnoddau adnewyddadwy”.

Mae penderfyniadau cynllunio wedi'u seilio ar asesu effaith cynnig ynglŷn â datblygiad ar yr amgylchedd a'r cymunedau o'i gwmpas gan gydbwysu hyn â'r angen i gynyddu ein cyflenwad o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a'r fantais economaidd a geir o symud tuag at economi carbon isel. Mae'r asesiad hwn yn annibynnol ar natur y datblygwr.

Rwyf yn cydnabod bod angen cymorth ar brosiectau ynni adnewyddadwy lleol a chymunedol wrth fynd drwy'r system gynllunio ac ysgrifennodd fy rhagflaenydd, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, sawl gwaith at awdurdodau cynllunio lleol yn gofyn am i'r cymorth hwn fod ar gael. Mae addysg a hyfforddiant ar gyfer swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol hefyd yn bwysig er mwyn iddynt fynd ati'n briodol i asesu ceisiadau am brosiectau ynni adnewyddadwy llai. Yn gynharach eleni, comisiynwyd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i ddarparu hyfforddiant o'r fath. Cynhaliwyd chwe sesiwn hyfforddi ac aeth cyfanswm o 63 o bobl iddynt.

Mae ein gwasanaeth Ynni Lleol hefyd yn darparu'r ymgynghoriaeth a'r cronfeydd sydd eu hangen ar ddatblygiadau sy'n cael eu harwain gan gymunedau i ddefnyddio'r system gynllunio ar sail debyg i ddatblygwyr masnachol.

Byddaf yn parhau i gynorthwyo prosiectau ynni adnewyddadwy lleol a chymunedol a bydd fy swyddogion cynllunio yn monitro'r sefyllfa hon er mwyn gweld a ellir cynnig unrhyw gymorth penodol pellach i ychwanegu at ein polisïau cenedlaethol cadarnhaol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru gyflawni ei argymhellion blaenorol am symleiddio prosesau cynllunio a chaniatáu yn llawn.

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Rwyf yn cydnabod bod angen symleiddio'r system gynllunio a thrwy ddeddfu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 rydym eisoes wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r system gynllunio er mwyn iddi fod yn fwy effeithlon.

Mae'r gyfundrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn gweithredu erbyn hyn, sy'n peri mai Gweinidogion Cymru a fydd yn penderfynu ar ddatblygiadau uwchlaw 10MW. Rwyf o'r farn fod prosiectau o'r fath yn gwneud cyfraniad pwysig at gymysgedd ynni Cymru a bod penderfyniadau amserol ar brosiectau o'r fath yn hollbwysig er mwyn i Gymru gyrraedd ei thargedau o ran ynni adnewyddadwy.

Rydym wrthi'n datblygu ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn nodi ein blaenoriaethau o ran defnyddio tir, ac rwyf yn disgwyl iddo ymgorffori

ein polisïau presennol sy'n ymwneud ag ardaloedd a lleoliadau penodol, fel Ardaloedd Chwilio Strategol. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, bydd rhaid i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddarparu'r cyd-destun o ran cynllun datblygu er mwyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae fy swyddogion hefyd wrthi'n archwilio'r potensial ar gyfer creu methodoleg gyffredin ledled Cymru i asesu gallu gwahanol dirweddau i fod yn gartref i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy (gan gynnwys ynni gwynt a solar). Bydd hyn yn ceisio sicrhau cysondeb yn y modd yr ystyrir materion sy'n ymwneud â'r dirwedd ac effeithiau gweledol.

Ar raddfa leol a chymunedol, rydym hefyd wedi cyhoeddi gwaith ymchwil yn ddiweddar ar osodiadau paneli solar annomestig ac mae swyddogion yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio effeithiau cynlluniau trydan dŵr bach iawn. Bydd y ddau brosiect hyn yn cyfrannu at adolygiad o'r Hawliau Datblygu a Ganiateir a fydd yn destun ymgynghoriad y flwyddyn nesaf. Gallai hyn ddileu'r angen i gael caniatâd cynllunio yn gyfan gwbl o'r datblygiadau hyn.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru brif rôl mewn cynllunio a thrwyddedu, ac rwyf fi a'm rhagflaenwyr wedi nodi'n glir fod angen gwella'n barhaus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai statudol yn y system gynllunio gwlad a thref, ac mae'n darparu cyngor i ddatblygwyr, ac i awdurdodau sy'n penderfynu, ynglŷn ag effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i tua 7,000 o ymgynghoriadau ar gynllunio datblygiadau bob blwyddyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at ymateb i 90% o'r holl ymgynghoriadau erbyn terfynau amser statudol neu gytunedig, a'r llynedd ymatebodd y sefydliad i 91% o'r ymgynghoriadau ar gynllunio datblygiadau erbyn terfynau amser statudol neu gytunedig. Cyflawnwyd hyn drwy gyflwyno newidiadau strwythurol yng ngwasanaeth cynllunio cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, datblygu canllawiau mewnol newydd, darparu hyfforddiant i staff, a gweithredu system TGCh newydd i gynorthwyo staff sy'n ymateb i ymgynghoriadau ar gynllunio datblygiadau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ystyried ffyrdd o wella'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein i ymgeiswyr i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal arolwg boddhad cwsmeriaid yn ddiweddar i'w helpu i ddeall yn well y ffordd y defnyddir cyngor. Bydd adroddiad cryno sy'n amlinellu'r prif ganfyddiadau a'r camau gweithredu ar gyfer gwella yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref yn 2016.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu Bwrdd Cynghori a Llunio Strategaeth ar Gynllunio Datblygiadau i ddarparu cyfeiriad strategol i'w wasanaeth cynllunio cenedlaethol. Mae'r Bwrdd yn arwain y gwaith o ddarparu gwasanaeth cynllunio datblygiadau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r broses o'i wella'n barhaus. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu cynhyrchion, canllawiau a gweithdrefnau i Dimau Cynghori a Llunio Strategaeth ar Gynllunio Datblygiadau o ran cyflawni'r Adolygiad Ardal Fusnes, Deddf

Cynllunio (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu prosiect gwella ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol i helpu i ddarparu gwasanaeth cynllunio mwy effeithiol ac effeithlon.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi sefydlu Bwrdd Cynghori ar Ynni i ddarparu cyfeiriad strategol integredig ar draws yr ystod o gyfrifoldebau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â nhw mewn cysylltiad â materion ynni.

Bu gwelliant sylweddol hefyd o ran rôl Cyfoeth Naturiol Cymru ym maes ynni dŵr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wella prosesau trwyddedu ar gyfer dulliau tynnu a chronni ym maes ynni dŵr er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon, yn gymesur, ac yn cael eu darparu â gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid o fyd llywodraeth, diwydiant a'r amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithredu ei raglen bresennol i ddatblygu dulliau micro o gynhyrchu ynni dŵr ar ystâd goedwigoedd Llywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cymryd rhan yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ynni Dŵr gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Ynni Dŵr Prydain, a bydd ei argymhellion yn darparu'r cyd-destun ar gyfer rhagor o welliannau i waith Cyfoeth Naturiol Cymru o gefnogi ynni dŵr yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru sefydlu cynllun benthyciadau, yn debyg i'r cynllun benthyciadau CARES yn yr Alban, a dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Ynni Cymunedol Cymru i gyflwyno'r cynllun.

Ymateb: Derbyn

Er fy mod yn cytuno bod cyllid grantiau a benthyciadau yn hanfodol er mwyn i brosiectau ynni cymunedol ffynnu, mae'n anffodus nad yw'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi nodi graddau'r ddarpariaeth hirdymor yr ydym wedi'i chreu yng Nghymru.

Rydym wedi darparu cymorth parhaus ers 2010 i gynlluniau ynni cymunedol. Bu'r gronfa fenthyciadau'n gweithredu ers sawl blwyddyn, ac roeddem yn siomedig nad oedd prosiectau cymunedol mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyllid benthyciadau sylweddol a oedd ar gael o'r prosiect blaenorol a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Sicrhaodd fy rhagflaenwyr fod rhagor o gyllid ar gael i ddarparu parhad o ran y cymorth. Ers 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig dros £7 miliwn ar ffurf benthyciadau a grantiau cyfalaf i gynlluniau ynni adnewyddadwy.

Ym mis Ionawr 2016, lansiodd gwasanaeth Ynni Lleol, sy'n ehangu cylch gwaith cymorth blaenorol i gynnwys cymorth i brosiectau busnesau bach a

chanolig sy'n creu manteision lleol. Mae Cyllid Cymru yn gweinyddu cronfa benthyciadau cylchdroi Ynni Lleol i ddarparu benthyciadau datblygu referniw a chyfalaf i gynlluniau ynni adnewyddadwy lleol ar raddfa fach.

Rwyf yn siomedig nad yw'r Pwyllgor wedi cydnabod manteision y cymorth a ddarperir yng Nghymru, sy'n fwy hael o safbwynt grantiau na chronfa CARES yn yr Alban. Yng Nghymru hefyd, rydym wedi gweithredu'n fwy rhagweithiol ac rydym wedi derbyn mwy o'r risg y mae cymunedau â llai o'r dulliau o'i hysgwyddo.

Rydym wedi treialu nifer o ddulliau arloesol o gefnogi perchnogaeth leol ar ddatblygiadau. Er mwyn cyflymu'r broses ddatblygu, rydym wedi darparu grantiau fel y gall grwpiau gyflogi staff cyflawni prosiectau, gan gyflymu'r gwaith cyflawni. Rydym hefyd wedi darparu cyfalaf pan na fydd arianwyr masnachol yn gwneud hynny. Mae enghreifftiau o'r manau lle rydym wedi cymryd y camau rhagweithiol hyn wedi'u nodi isod. Nid wyf yn gwybod am weinyddiaethau eraill yn y DU sy'n cynnig gwasanaeth mor gynhwysfawr ac ymatebol.

Bu inni ddarparu benthyciad sylweddol i Ynni Sir Gâr Cyf i'w alluogi i brynu prosiect gwynt ar raddfa fach gan ddatblygwyr lleol. Oherwydd y benthyciad a gynigiwyd, roedd y grŵp yn gallu ymgymryd â'r cyfle ar fyr rybudd, ac ysgogi cynnig cyfranddaliadau a chyllid masnachol i gwblhau'r gwaith adeiladu. Bydd yr arian yn dychwelyd i'r gronfa ynni lleol, gan ei ryddhau ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol.

Bu imi hefyd roi benthyciad dros £3.5 miliwn i Awel Aman Tawe i bontio'r bwlch mewn costau adeiladu a'i alluogi i fynd ati i adeiladu ei brosiect gwynt 4.7 MW, y disgwylir iddo ddarparu miliynau o bunnoedd o incwm i Flaenau Dyffryn Aman dros yr ugain mlynedd nesaf.

Rwyf yn cytuno y dylai pob lefel o'r llywodraeth chwarae rhan allweddol yn y gwaith o helpu prosiectau cymunedol. Rwyf yn deall bod rhai Awdurdodau Lleol yn gwneud gwaith rhagorol yn y cyswllt hwn, a byddwn yn annog eraill i weithredu yn yr un modd.

Rydym wedi sefydlu Porth Partneriaeth i annog awdurdodau lleol, datblygwyr ac eraill i weithio gyda chymunedau i helpu i gefnogi cynlluniau ynni lleol. Byddwn yn gweithio gyda phawb sy'n ymwneud â'r broses i ddeall pa gymorth sydd ei angen i gael mwy o brosiectau â pherchnogaeth a rennir, o bob maint.

Bu fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag Ynni Cymunedol Cymru i ddatblygu gwasanaeth Ynni Lleol a'r gronfa fenthyciadau. Caiff ein cymorth o ran cyflawni ei gaffael drwy broses agored sy'n cydymffurfio, a byddem yn annog Ynni Cymunedol Cymru a sefydliadau eraill sydd â gwybodaeth am y diwydiant i wneud cynnig am gontractau yn y dyfodol.

Erbyn hyn, mae'r sefyllfa'n heriol iawn i brosiectau newydd o ganlyniad i'r gostyngiad yng nghymorthdaliadau Llywodraeth y DU. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall ei bwriad yn y dyfodol yng nghyswllt y cynllun

Tariffau Cyflenwi Trydan. Pan gafodd ei lansio, roedd y cynllun hwn yn cynnwys amcanion i wella ymgysylltiad ag ynni adnewyddadwy, a'r gefnogaeth iddo, yn lleol. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall sut y gall datblygiadau lleol gael gafael ar unrhyw gymorth a fydd ar gael yn y dyfodol, fel mecanweithiau'r farchnad, a chanfod pa gymorth y gall fod ei angen arnynt i wneud hyn. Rydym hefyd yn ymchwilio i ganfod sut y gallai prosiectau weithio y tu hwnt i'r cymhorthdal, er ei bod yn ymddangos bod hyn yn heriol yn y farchnad bresennol.

Goblygiadau ariannol - Gellir darparu'r lefel bresennol o wasanaeth o fewn cyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru fanteisio i'r eithaf ar bob ffynhonnell o gyllid. Mae hyn yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o gyllid Ewropeaidd.

Ymateb: Derbyn

Mae creu amgylchedd buddsoddi sefydlog a chadarnhaol yn rhan allweddol o'n cymorth i brosiectau ynni. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu'n arloesol o ran ein dulliau ariannu er mwyn goresgyn yr amgylchedd ariannol heriol presennol oherwydd y gostyngiad yng nghymorthdaliadau Llywodraeth y DU. Rydym wedi dangos hyn drwy ein cymorth ar ffurf benthygiad pontio i Awel Aman Tawe i adeiladu ei dyrbinau gwynt cymunedol, a'n cronfeydd di-log ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru: Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd a chyllid Salix. Rydym yn buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o ddatblygu ac ariannu prosiectau effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus gan fod y rhain yn lleihau allyriadau, yn creu twf economaidd, ac yn helpu i leihau costau ynni i gyrff sy'n cyflawni ar y rheng flaen.

Dangosodd yr ymatebion i ymgynghoriad Twf Gwyrdd Cymru: Cymorth Buddsoddi fod yr ystod eang o gymorth buddsoddi sydd ar gael yn cael cefnogaeth eang gan randdeiliaid. Arloesedd a hyblygrwydd parhaus i ymateb i farchnad sy'n newid yn gyflym yw ein dull gweithredu o hyd. Roedd y dystiolaeth a oedd yn sail i'n gwaith yng nghyswllt Twf Gwyrdd Cymru yn glir: roedd y fantais fwyaf a geir o brosiectau ynni carbon isel yn deillio o fynd ati i fuddsoddi. Mae uchafu lefel y buddsoddi o Gymru ym mhrosiectau Cymru yn bwysig inni er mwyn cael y mwyaf o'r prosiectau hyn.

Rydym wedi nodi nifer sylweddol o brosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sydd ar y gweill ledled Cymru. Er na fydd pob un o'r prosiectau hyn yn cael ei gwblhau, mae'n dangos bod yma uchelgais sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r gyllideb sydd gan Lywodraeth Cymru i'w buddsoddi. Bydd pob ffynhonnell hyfyw o fuddsoddiadau a chyllid yn cael ei harchwilio. Rydym yn darparu gwybodaeth arbenigol i gyrff cyhoeddus a grwpiau ynni cymunedol i'w galluogi i ganfod y buddsoddiadau hyn a'u sicrhau.

Yn y cyd-destun hwn, mae cyfle mawr i sicrhau'r manteision mwyaf o'r cyllid sydd ar gael gan yr UE i gefnogi prosiectau ynni carbon isel a lleihau allyriadau, a chynlluniau effeithlonrwydd ynni i'r cartref. Mae dau Amcan Penodol yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn Rhaglen Dwyrain Cymru: ynni adnewyddadwy ar raddfa fach ac effeithlonrwydd ynni yn y stoc bresennol o dai yng Nghymru pan fo'r aelwyd yn wynebu tiodi tanwydd difrifol.

Rydym eisoes wedi cyfeirio at ddatblygiad cynllun effeithlonrwydd ynni cartrefi a thlodi tanwydd sy'n seiliedig ar ardaloedd ac a ariennir gan yr UE, a fydd yn olynu Arbed 2 ERDF. Bydd y cynllun newydd, os caiff ei gymeradwyo, yn cychwyn yn 2017 a bydd yn canolbwyntio ar drechu tiodi tanwydd drwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi mewn ardaloedd lle y mae pobl mewn perygl o fod mewn tiodi tanwydd difrifol.

Rydym wedi gweithio gyda phrosiectau ynni adnewyddadwy sy'n bodloni gofynion yr amcan ynni cymunedol. Mae'r cyllid yn canolbwyntio ar brosiectau arddangos sy'n darparu cyflenwad lleol nad ydynt â mynediad at dariffau Llywodraeth y DU. Mae mwyafrif y prosiectau sy'n datblygu yn canfod bod y tariffau presennol yn cynnig achos busnes gwell na chyllid grant, er bod rhai prosiectau â diddordeb yn y cyllid sydd ar gael.

Ym mis Gorffennaf, bu Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Grwpiau Awdurdodau Lleol yn Ne Ddwyrain Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn hwyluso gweithdy hanner diwrnod i ddod â chymysgedd o weithredwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat at ei gilydd i ysgogi prosiectau sy'n addas i gael cyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Canfu'r gweithdy cychwynnol hwn gyfleoedd ar gyfer partneriaethau ac ysgogodd ddwsinau o syniadau ynglŷn â phrosiectau. Ailgynhaliwyd y gweithdy ym mis Hydref yng Ngogledd Cymru.

Llwyddodd tîm Twf Gwyrdd Cymru Llywodraeth Cymru i sicrhau £1.5m o gyllid grant gan Raglen Cymorth Ynni Lleol Ewropeaidd (ELENA) Banc Buddsoddi Ewrop i weithredu gwasanaeth Re:fit Cymru, sy'n cynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu ôl-osodiadau effeithlonrwydd ynni ar draws ystadau.

Yn gyffredinol, mae cyllid arloesedd y DU yn hynod gystadleuol. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i hyrwyddo a gweithio gyda sefydliadau i gael gafael ar gyllid, er enghraifft drwy ddod â chonsortium at ei gilydd. Buom hefyd yn llwyddiannus o ran ariannu ar y cyd. Mae SPECIFIC, sef rhaglen ymchwil gydweithredol i ddatblygu technolegau fel y gall adeiladau weithredu'n safleoedd pŵer eu hunain, yn fenter a ariennir gan Gyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC), Innovate UK, WEFO ERDF, a Llywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i gynorthwyo sefydliadau yng Nghymru i gyfranogi yng nghymorth y DU a'i atynnu.

Mae rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi'i chynllunio fel y gellir ysgogi buddsoddiadau gan ffynonellau cyllid eraill, fel Ymrwymiad y Cwmnïau Ynni, Awdurdodau Lleol, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ers 2011,

mae cynllun Nyth ar ei ben ei hun wedi ysgogi dros £10 miliwn o gyllid ychwanegol o rwymedigaethau cyflenwyr ynni yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol – Caiff gwaith presennol ei ariannu o fewn cyllidebau rhaglenni. Bydd dulliau ariannu newydd ac arloesol eraill yn cael eu datblygu pan fo'r cyfleoedd ar gael.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru ddarparu cymorth 'dal llaw' a chynghor ar gyfer prosiectau lleol a chymunedol i sicrhau'r arian angenrheidiol ar gyfer datblygiadau ynni lleol a chymunedol, ochr yn ochr â chymorth ehangach ar gyfer datblygu prosiectau.

Ymateb: Derbynn

Rwyf yn cytuno â'r egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad. Mae angen sicrwydd er mwyn dwyn ymlaen ddatblygiadau ynni newydd. Rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i'w hannog i ofalu bod dulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn gallu cael sicrwydd o ran prisiau, a hynny er mwyn dwyn ymlaen ddulliau rhad o gynhyrchu ynni ar ffurf datblygiadau gwynt a solar a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ynni morol a gwres.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd, gan ofalu bod y cymorth i brosiectau ynni lleol yn parhau y tu hwnt i ddiwedd rhaglen 2007-2013 ERDF yn 2015, a sicrhau bod cymorth o ran datblygu ac adeiladu ar gael o gronfeydd Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaeth Ynni Lleol, a lanswyd ym mis Ionawr 2016, yn darparu cymorth parhaus i brosiectau, ac mae wedi parhau i gynorthwyo cymunedau i feddwl am y dull o gael gafael ar gyllid cyfalaf yn gynnar iawn yn y broses.

Mae dysgu o flynyddoedd cynnar y cymorth wedi'i wreiddio yn y gwasanaeth. Mae Cynghor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sydd â hanes cadarn o weithio gyda mentrau cymdeithasol ar gyllid, yn darparu cymorth i fentrau cymdeithasol o dan wasanaeth Ynni Lleol. Mae CGGC yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod prosiectau wedi'u strwythuro gan gadw anghenion arianwyr masnachol mewn cof. Mae'n cynorthwyo prosiectau i ganfod cyllid masnachol a chymdeithasol, ac mae wedi creu cydberthnasau cryf ag ystod o fuddsoddwyr. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ariannu cymunedau i gynnal cynigion cyfranddaliadau, y gwelwn eu bod yn ffynhonnell lwyddiannus o swm sylweddol iawn o gyllid cyfalaf.

Mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio gyda chymunedau i ganfod unrhyw brosiectau sy'n hyfyw heb gymhorthdal, er bod hyn yn heriol iawn yn achos prosiectau ar raddfa fach. Mae ein gwaith modelu'n dangos y byddai angen inni ddarparu grantiau ar gyfer mwy na 70% o'r costau adeiladu er mwyn i brosiectau fod yn hyfyw. O ganlyniad, rydym yn ceisio canfod ffyrdd o wella'r achos busnes i sicrhau bod prosiectau'n dal i gael eu hadeiladu. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i'r safleoedd gorau, a cheisio'u cysylltu â chymunedau a allai gael budd o ddatblygu'r prosiect.

Byddwn yn parhau i gynnig cymorth drwy ein gwasanaeth datblygu, mynediad at gyllid datblygu ac adeiladu, a chymorth i weithio gydag arianwyr, gan gynnwys rhaglenni Ewropeaidd, ac arianwyr preifat ac elusennol. Rydym yn helpu cymunedau i ganfod a all sefydlu cwmnïau cyflenwi arwain at gyfradd enillion uwch nag a geir o werthu trydan i'r grid. Rydym hefyd yn gweithio gyda datblygwyr i'w hannog i weithio gyda chymunedau a all fod am fuddsoddi mewn prosiectau mwy. Drwy hynny gallant elwa ar gynhyrchu ynni'n lleol heb orfod dysgu i fod yn ddatblygwyr.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phrosiectau ynni lleol i sicrhau bod y dyheadau a nodir yn "*Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol*" (2015) yn cael eu gwireddu.

Goblygiadau ariannol – Gellir cyflawni'r lefel gymorth bresennol gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru roi sicrwydd polisi oherwydd y bydd hyn yn creu swyddi medrus ac yn cynnig mwy o gyfleoedd hyfforddi. Bydd y sicrwydd hwn yn rhoi mwy o hyder i'r diwydiant a darparwyr sgiliau y bydd buddsoddi mewn cyrsiau hyfforddiant yn talu ar ei ganfed.

Ymateb: Derbyn

Rwyf yn cytuno bod angen sicrwydd o ran polisi yn y tymor hir er mwyn creu'r sgiliau a'r cadwyni cyflenwi sydd eu hangen yn economi Cymru i gefnogi dyfodol deallus o ran ynni. Yng Nghymru, rydym wedi parhau i roi sicrwydd o ran cyfeiriad, fel y nodir yn Ynni Cymru. Rydym yn cydnabod bod angen trosglwyddo i system ynni carbon isel yn ôl amserlen sy'n ein galluogi i gyflawni targedau datgarboneiddio. Rydym yn cydnabod hefyd fod angen cynnal llewyrch economaidd, ac mae hyn yn golygu cynorthwyo'r broses o ddatblygu swyddi newydd ym maes cynhyrchu ynni glân.

Rydym wedi galw ar Lywodraeth y DU i roi sicrwydd ynglŷn â'r cyllid ar gyfer cynhyrchu ynni yn y dyfodol, a fydd yn gallu creu swyddi o ddatgarboneiddio os cymerir y penderfyniadau hirdymor cywir. Byddwn yn parhau i grybwyll y mater hwn wrth Whitehall ac ystyried camau gweithredu pellach os oes gennym bryderon na fydd dulliau a weithredir ledled y DU yn cefnogi ein nodau a'n huchelgeisiau i Gymru. Yn y cyfamser, byddwn yn manteisio ar bob cyfle i bwysu am gael cynlluniau arddangos a dreialir yng Nghymru, a fydd yn sail i'r dadleuon i helpu i ystyried y newidiadau sydd eu hangen ym maes llywodraethu a rheoleiddio er mwyn i Gymru a'r DU ffynnu.

Mae Rhaglen Lywodraethu – Symud Cymru Ymlaen 2016-21 yn nodi blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Y blaenoriaethau sgiliau allweddol yw:

- Cefnogi pobl sy'n ceisio'r sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen i gael swyddi o ansawdd da.
- Creu o leiaf 100,000 o gyfleoedd am brentisiaethau i gefnogi unigolion a helpu cyflogwyr i dyfu eu busnesau.
- Hyrwyddo, annog a galluogi arloesedd a chysylltedd – ein prif sbardunau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, ar draws yr economi gyfan.

Mae'r cyfeiriad a bennwyd gan y Datganiad Polisi ar Sgiliau (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014) yn parhau'n ddilys o gofio bod yr heriau hirdymor i Gymru yn parhau, sef codi lefelau sgiliau cyffredinol, ymgysylltu â mwy o gyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant, gwella llwybrau at ddysgu ar lefel uwch a chynorthwyo pobl i fynd i swyddi â chyflogau gwell.

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth galon ein Polisi Sgiliau. Dros y pum mlynedd nesaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu amgylchedd dysgu ôl-16 sy'n parhau'n addas i'r diben ac sy'n gosod Cymru ar y blaen i wledydd eraill y DU ac yn rhyngwladol. Pwynt hollbwysig yw bod creu sgiliau mewn ffordd ranbarthol yn parhau'n bolisi allweddol y canolbwyntir arno wrth symud ymlaen, a'i fod yn rhan o agenda sy'n tyfu mewn cyd-destun o fyd sgiliau a ysgogir gan Lywodraeth y DU, sy'n canolbwyntio ar ranbarthau, ac sydd wedi cryfhau, gan gynnwys bargeinion Dinas-Ranbarthau a Chynigion Twf.

Bydd cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol blynyddol, a gynhyrchir gan y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn sail i benderfyniadau cynllunio i ddarparu ac yn darparu cronfa dystiolaeth hollbwysig y gellir ei defnyddio i benderfynu ar fuddsoddiadau mewn sgiliau. Y dull hwn sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau ranbarthol yn cyd-fynd â chyfleoedd o ran twf a buddsoddiadau, gan gynnwys y blaenoriaethau a nodwyd gan Ardaloedd Menter, Dinas-Ranbarthau/Cynigion Twf a chydweithredu trawsffiniol.

Mae cyfle yn awr i gyflogwyr o'r sector ynni ymgysylltu'n llwyr â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion sgiliau'r sector yn cael eu trafod yn llawn yn ystod y gwaith o ddatblygu cynlluniau rhanbarthol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhaid i Gymru ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol i gefnogi technolegau ynni adnewyddadwy a mesurau effeithlonrwydd ynni.

Ymateb: Derbyn

Rwyf yn cytuno bod angen datblygu cadwyni cyflenwi lleol ar gyfer effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy er mwyn datrys y sefyllfa o ran y pwysau ar swyddi carbon uchel mewn ffordd gadarnhaol. Rydym yn cydnabod natur drosglwyddadwy'r sgiliau sydd eu hangen ar y sector ynni. Bydd hyn yn bwysig wrth inni gynorthwyo'r rhai sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd ym maes cynhyrchu ynni carbon uchel i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i symud i'r swyddi sy'n datblygu ym maes cynhyrchu, storio a rheoli ynni carbon isel ac adnewyddadwy.

Caiff y galw am staff medrus ei sbarduno'n lleol, ac mae cyswllt cryf rhwng y galw hwn a'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael. Ni fydd y ddarpariaeth o sgiliau yn cael ei gwireddu os nad oes galw gan gyflogwyr, ac felly mae angen i waith medrus fod ar y gweill. Mae'r wybodaeth hon am y farchnad lafur yn cael ei chasglu mewn cynlluniau cyflogaeth a sgiliau blynyddol sy'n cael eu cynhyrchu gan y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Rydym wedi cefnogi proses sylweddol o ddatblygu sgiliau ym maes technolegau effeithlonrwydd ynni drwy ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni, ac yn ddiweddar bu inni gynnal digwyddiadau cadwyn gyflenwi a oedd yn gysylltiedig â'r prosiectau sy'n datblygu yn y sector cyhoeddus o ganlyniad i'n cymorth Twf Gwyrdd Cymru.

Mae pob un o'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni sydd wedi'i osod o dan gynlluniau Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi'i gyflawni gan fusnesau bach a chanolig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Drwy ein cynllun ERDF Arbed 2 yn unig, sy'n rhan o raglen Cartrefi Clyd, crëwyd 470 o swyddi gan gynnwys 40 o brentisiaethau newydd ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi, o logisteg i weinyddu ac arolygu adeiladau i reoli prosiectau, a darparwyd 66 o leoliadau o dan raglen Esgyn. Byddwn yn parhau i gynnig y cyfleoedd hyn o dan gynlluniau Cartrefi Clyd gan eu bod yn rhan bwysig o'r manteision cymunedol a ddarperir gan y rhaglen.

Buom yn llwyddiannus o ran datblygu cyrsiau ar gyfer sgiliau ym maes ynni adnewyddadwy yng Ngholeg Menai mewn cysylltiad â datblygu fferm wynt alltraeth Gwynt y Môr. Rydym hefyd yn gweithio gyda Horizon a Choleg Menai ynghyd â phartneriaid strategol eraill yng nghyswllt datblygiad Wylfa Newydd.

Ddiwedd 2015, roedd gan Gymru gapasiti ynni gwynt ar y tir o tua 639MW, sef tua 7% o gyfanswm y DU. Daeth adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, datblygwyr ynni gwynt ar y tir a RenewableUK Cymru i'r casgliad, pe gellid datblygu 2,000MW o gapasiti erbyn 2025, byddai hyn yn creu hyd at £2 biliwn i economi Cymru ac yn cefnogi dros 2,000 o swyddi dros oes y

prosiectau. Rydym wedi datblygu methodoleg ar gyfer ymgysylltu â chwmnïau ac rydym wedi cyflawni cryn lwyddiant o ran datblygiad Pen y Cymoedd Vattenfall. Hyd yma, mae contractau gwerth £45 miliwn wedi'u gosod i fusnesau Cymru i ddarparu'r fferm wynt hon.

Bydd y gwaith o adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn yn cyflogi hyd at 6,000 o bobl ar y safle yn ystod cyfnod prysuraf y gwaith, a fydd yn para rhwng 3 a 4 blynedd. Pan fydd yn gweithredu, sef yn ail hanner y 2020au, bydd hyd at 1,000 o swyddi parhaol dros oes amcangyfrifedig yr orsaf, sef 60 mlynedd.

Mae datblygwyr prosiectau a thechnoleg ynni'r môr eisoes wedi gwario £34.5 miliwn yng Nghymru, gan greu mwy na 99 o flynyddoedd personau o gyflogaeth yn uniongyrchol, sy'n codi i 174 o flynyddoedd personau os caiff gwaith ymchwil academaidd yng Nghymru ei gynnwys.

Ar ôl ei adeiladu, byddai Morlyn Llanw Bae Abertawe yn creu neu'n cefnogi hyd at 181 o swyddi. Mae asesiad o'r effaith economaidd a gynhaliwyd gan y cwmni'n amcangyfrif y gallai effaith flynyddol y morlyn gyfateb i tua £76 miliwn y flwyddyn. Mae'r datblygwr yn anelu at gael 50% o'r cynnwys o Gymru a 65% o'r cynnwys o'r DU.

Mae potensial mawr gan ddatblygiadau eraill fel prosiectau gwres. Mae Llywodraeth y DU wedi dyrannu dros £320 miliwn ar gyfer prosiectau rhwydweithiau gwres dros bedair blynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal digwyddiadau i helpu cyflenwyr i gyfrannu at y cynigion hyn, ac i gefnogi'r broses o ddatblygu prosiectau er mwyn sicrhau bod y cyfanswm mwyaf o gyllid yn dod i Gymru.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws sectorau i ysgogi'r broses o ddatblygu sgiliau. Mae'r gwaith ym Mhrifysgol De Cymru yn enghraifft glasurol o hynny, lle y canolbwyntir ar botensial hydrogen ar ffurf tanwydd. Mae datblygiadau Byw yn Glyfar yn peri bod angen dod â'r sgiliau mewn sectorau gwahanol at ei gilydd – un enghraifft yn unig o hynny yw hydrogen a storio gan ddefnyddio batrïau, sydd ill dau'n uno sgiliau o feysydd ynni a thrafnidiaeth.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ganfod y sgiliau sydd eu hangen ac i helpu i lunio'r ddarpariaeth er mwyn diwallu anghenion sgiliau'r cadwyni cyflenwi yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol – Dim. Mae ein gwaith i gefnogi sgiliau a chadwyni cyflenwi yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio cyllidebau staff a rhaglenni presennol.

Lesley Griffiths

Lesley Griffiths
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig